**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/MD/0014/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Hydref 2015

Annwyl David,

Ysgrifennaf atoch i roi'r diweddaraf ichi am y newidiadau a wnaed i'r Codau Ymarfer ar Rannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r newidiadau hyn yn dilyn eich llythyr, dyddiedig 7 Gorffennaf, a oedd yn cynnwys casgliadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid. Maent hefyd yn ymateb i'r materion a godwyd yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015.

Cafodd y Rheoliadau eu pasio gan y Cynulliad ond roedd yna negeseuon clir ynghylch y newidiadau yr oedd angen eu gwneud i'r cod ymarfer ar gymhwystra, er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Rwyf wedi rhoi'r newidiadau hynny mewn tabl, sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn. Rwy'n amgáu hefyd gopi o'r codau ymarfer diweddaraf ac mae'r newidiadau wedi'u hamlygu ynddynt, er hwylustod ichi. Dyma'r fersiynau yr wyf yn bwriadu eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd.

Bu'r Pwyllgor yn trafod yn hir sut y gellir cymhwyso'r meini prawf cymhwystra newydd, sy'n cael eu hadnabod erbyn hyn fel y 'prawf gallu a gallu yn unig', yn gyson ar draws Cymru. Mae gennyf bryderon y gellid camddehongli term a ddefnyddiwyd i helpu i rannu'r neges am y model cymhwystra newydd pan oedd yn cael ei ddatblygu fel ffordd o geisio atal pobl rhag cael mynediad at ofal a chymorth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cod ar Ran 4 wedi'i ddiweddaru i ymestyn y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cymhwystra, ac i sicrhau mwy o eglurder, er mwyn adlewyrchu'r rheoliadau a gafodd eu pasio gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 14 Gorffennaf. At hynny, mae'r codau yn cynnwys cyfeiriadau pellach at y gofyniad i'r ymarferydd gofnodi canlyniad yr asesiad a sut y bydd canlyniadau personol yn cael eu bodloni ar yr offeryn asesu a chymhwystra. Roedd hon yn neges gadarn gan y Pwyllgor ac rydym wedi gwrando.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Cardiff • Caerdydd
CF99 1NA


English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r codau wedi'u diweddaru hefyd i gynnwys y gwaith oedd yn parhau yn dilyn yr ymgynghoriad. Mae'r newidiadau yn cynnwys adran ar ystyriaethau eraill i blant, ac mae penawdau sydd wedi'u diweddaru o'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r Cod ar Ran 3, yn ategu'r adran hon. Mae yna arweiniad yn y ddau god hefyd ar y lefel briodol o gymhwysedd i ymarferwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau ac sy'n paratoi cynlluniau gofal a chymorth; arweiniad a ddatblygwyd ar y cyd â Chyngor Gofal Cymru. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hamlygu hefyd yn y Codau sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Bydd y codau ymarfer terfynol hyn yn awr yn cael eu gosod ac rwy'n fodlon eu bod yn adlewyrchu'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, y ddadl yn y Cyfarfod Llawn a'n hymdrechion parhaus i feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at lefarwyr yr wrthblaid cyn y cyfarfod rhyngof i â hwy ar 21 Hydref.

Yn gywir



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services